

Trwy e-bost

24/10/2017

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i BGC Powys

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft. Deallaf eich bod fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi creu gweledigeth o'r 'Powys a garem erbyn 2040' gyda phedwar amcan drafft, sef:

- **Bydd pobl ym Mhowys yn mwynhau economi sefydlog** a ffyniannus. . . Yn 2040, mae Powys yn ardal o gyfleoedd ac uchelgais lle mae ffyniant wedi ei adeiladu drwy addysg a sgiliau o ansawdd uchel, lle gall arloeswyr ac entrepreneuriaid gyflawni llwyddiant di-ben-draw.
- **Bydd pobl ym Mhowys yn mwynhau amgylchedd cynaliadwy a chynhyrchiol** . . . Yn 2040, mae Powys yn cael ei chydabod fel sir sy'n harneisio'i hadnoddau naturiol yn y modd gorau posibl tra'n cyflawni manteision ac economi llesiant i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.
- **Bydd pobl Powys yn iach, yn fywiog yn gymdeithasol ac yn gyfrifol**. . . Yn 2040, mae Powys yn sir lle mae trigolion yn mwynhau iechyd da ac ansawdd bywyd da, lle mae pawb yn gyfartal a chyfleoedd i bobl gyflawni'r hyn y maent yn dymuno ei gyflawni.
- **Bydd pobl ym Mhowys yn cysylltu â chymunedau cydnerth a bydd ganddi ddiwylliant** bywiog. . . Mae Powys yn 2014 yn sir sydd wedi ei seilio ar gymunedau cydnerth sy'n creu datrysiadau lleol o'r newydd. Mae Powys hefyd wedi cynyddu ei henw da fel sir sy'n cynnig ystod eang o weithgareddau diwylliannol a digwyddiadau sydd at ddant pawb.

Deallaf eich bod hefyd wedi bod yn gweithio ar themâu sy'n deillio o'ch asesiad llesiant ar gyfer ystyried pa fath o gamau a allai eich helpu i gwrdd â'ch amcanion, sy'n cynnwys:

- Cymunedau cydnerth.
- Cyflogaeth a sgiliau.
- Busnes ac entrepreneuriaid.
- Cysylltiadau trafndiaeth a chymunedol.



- Ymyrraedd gynnar ac atal.
- Twristiaeth amgylcheddol a mentergar.

Drwy siarad yn aml â'ch swyddogion cynorthwyol mae fy nhîm wedi ennill dealltwriaeth o'r ffordd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC); sut yr ydych wedi mabwysiadu dulliau ar gyfer cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion a chymryd camau mewn dull gwahanol. Fel y byddant eisoes wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy ngwaith fod yn ddefnyddiol i chi, a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod yn teimlo bod y cysylltu hwn wedi bod o fudd i chi a'i fod wedi rhoi rhyw arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Roeddwn hefyd yn dymuno i fy ymateb i'ch asesiad llesiant fod yn un sy'n 'edrych i'r dyfodol' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', i'ch helpu i ystyried sut i fynd ati i asesu'n barhaus a chynllunio llesiant. Yn ddiweddar cyhoeddais ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) sy'n amlgu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n defnyddio'r adroddiadau hyn ar gyfer darparu fy nghyngor i chi.

Fel y gwyddoch, wrth bennu amcanion drafft a chymryd camau i'w diwallu, rhaid i FGCau ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer a mocsimeiddio eu cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol. Bwriad fy nghyngor yw eich helpu i ystyried sut y gallech wneud hyn yn effeithiol a sut y gallech ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio i lunio eich camau.

Felly, mae fy nghyngor i chi'n ymwneud â mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio ac yn benodol â'r pynciau yr ydych wedi eu nodi yn yr asesiad fel rhai i ganolbwyntio arnynt, ynghyd ag ymroi i'ch cysylltu ag eraill a allai eich helpu. Fel yr eglurodd fy nhîm, nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Hoffwn ddeall beth mae pob un o'ch camau a'ch amcanion drafft yn ei olyga i Bowys a sut mae hyn yn wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol. Gwn eich bod wedi gwneud llawer o waith i ddeall y cysylltiad rhwng eich gweledigaeth â chynlluniau corfforaethol presennol eich sefydliadau a gobeithiaf fod hyn wedi eich helpu i ddeall proffesiynau eich gilydd a'ch blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae bod yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ymwneud â chymryd camau gyda'ch gilydd tuag at wireddu llesiant ac edrych am ddulliau newydd o wneud pethau sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ym Mhowys. Felly, mae'n bwysig eich bod, wrth chwilio am gamau i gymryd gyda'ch gilydd, yn herio dulliau ac ymagweddau presennol. Yn gyffredinol mae cynlluniau corfforaethol wedi dangos yr hyn y mae sefydliad yn ei wneud am fater,

ond nid sut y maent yn gwneud hyn. Yn anochel mae cynllunio yn y modd hwn wedi ei gyfyngu i seilos, heb gymhwyso'r pum dull o weithio.

Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf hon yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut' h.y. beth ydych chi'n ei wneud i gyfrannu tuag at ein cydweledigaeth o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu, â phobl ac ansawdd eu bywydau, felly beth ydych chi'n mynd i wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol? A sut ydych chi'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithredu ym Mhowys?

Fel y cyfryw, nid busnes-fel-arfer yw pennu amcanion a chamau. Yn y gorffennol, rydym wedi pennu themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud p'run bynnag. I addasu eich dulliau o weithio mae'n ofynnol i fabwysiadu ymagwedd gwbl wahanol ac mae angen i chi roi amser a gofod i chi eich hunain i gwestiynu a yw'r ymagweddau presennol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau allweddol a thensiynau sy'n codi wrth gyflawni pob un o'ch amcanion. Ochr yn ochr â hyn bydd hefyd angen i chi ddangos sut mae pob un o'r cyrff cyhoeddus a gynrychiolir yn eich BGC yn cymryd camau rhesymol wrth ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith y gallai hyn, yn ystod cyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf fod yn heriol gan nad yw amcanion cyrff cyhoeddus unigol eto wedi eu gosod. Felly, tra fy mod yn deall yr angen i FGCau a chyrff cyhoeddus gael digon o amser i weithio tuag at aliniad byddaf yn dymuno gweld nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau ei gyrff cyhoeddus.

Rydych eisoes wedi dangos arweinyddiaeth gref a chyfeiriad fel BGC, wrth drefnu cyfarfod i drafod a threulio canfyddiadau eich asesiad llesiant yn gynharach yn y flwyddyn. Rwyf yn annog pob BGC i fabwysiadu ymagwedd debyg a threfnu cyfarfodydd pwrpasol neu greu sesiynau BGC i drafod pob un o'u hamcanion drafft, edrych ar y pum dull o weithio a nodir isod, a chynnal trafodaeth onest am y tensiynau rhwng materion polisi ac arfer presennol o fewn eich sefydliadau mewn perthynas â phob amcan. Dylai hyn wedyn sbarduno trafodaeth ar y modd y gallwch fabwysiadu ymagweddau newydd gyda'ch gilydd tuag at y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion a macsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Bydd angen i chi ddangos sut yr ydych wedi defnyddio eich pum dull o weithio i herio dulliau presennol o feddwl a beth fydd hyn yn ei olygu yn benodol i Bowys yn eich cynllun llesiant cyhoeddedig. Byddaf hefyd yn dymuno gweld y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd parthed y modd y mae pob un o'ch amcanion yn cwrdd â'ch dyletswydd i facsimeiddio eich cyfraniad tuag at bob un o'r nodau llesiant.

Rwyf o'r farn bod angen i chi ddangos sut mae eich BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:



- **Hirdymor:** Mae'n gadarnhaol i weld eich bod wedi gosod gweledigaeth ar gyfer Powys yn 2040 ac wedi cychwyn meddwl am genedlaethau'r dyfodol yn eich ardal. Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt, ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar y camau y byddwch yn eu cymryd? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd gennych i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? I drwytho'ch gweithgaredd, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer pob un o'ch nodau. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fanteisio arno i'r eithaf ac sydd ar gael drwy 'Objective Connect' a thrwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Ysgol Oxford Martin 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.
- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn llwyr y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut y bydd gwasanaethau ac adnoddau'n newid ym Mhowys i fod yn fwy ataliol. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalo cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau i drwytho eich camau.

- **Cydweithio:** Mae'n bwysig fod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda hwynt yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?



Wrth gyflawni'r camau, sut allai eich sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn fwy effeithiol. Gallai hyn gynnwys cyd-leoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau ac o bwys mawr, grynhoi adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych wedi ystyried y manteision hyn a sut mae'r camau y byddwch yn eu cymryd yn eich symud tuag at gyflawni'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n maximeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch nodau? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r nod hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

Mae'r gwaith yr ydych wedi ei wneud i ddeall y 'llinyn aur' rhwng cynlluniau corfforaethol a'r amcanion drafft wedi eich helpu i fwrw ati yma. Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn eich sefydliad, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r nod hwn? Mae eich cynllun drafft yn cynnwys cysylltiadau rhwng gwahanol nodau llesiant y sefydliad, ond ydych chi eto wedi cydnabod y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyssylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn ceisio'n barhaus i ennyn ymgyfraniad pobl yn natblygiad eich amcanion llesiant dros yr ychydig fisoedd diwethaf ac rwy'n falch i glywed eich bod yn cynllunio i barhau gyda hyn. Rwyf yn awyddus i weld ffocws parhaus yn cael ei ddangos yn hyn o beth gan bob BGC sy'n mynd tu hwnt i'r ymgyngori a'r ymgysylltu arferol. Sut yr ydych yn cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut yr ydych yn ymroi i ennyn ymgyfraniad pobl yn eich penderfyniadau? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl a phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Dylai'r cyngor hwn gael ei gymryd ar bob lefel gan FGCau, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu gwahanol agweddau wrth ddrafftio'u hamcanion llesiant ac yn darparu eu cynllun lleisiant mewn cyd-destun sy'n iawn iddynt hwy. Mae eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed i'ch helpu i gyflawni'r lefel hwn o gynnydd wrth ddrafftio eich amcanion a'ch camau, ond mae'n ofynnol i'ch arweinyddiaeth fabwysiadu dulliau newydd o weithio.



Fel y cyfryw, un o fy argymhellion o fewn fy adroddiad 'Llesiant yng Nghymru' yw bod angen i ni roi'r gorau i edrych ar FGCau fel pwyllgorau ffurfiol, sy'n cael eu harwain gan awdurdod lleol, gydag aelodau'n adeiladu cyd-ddealltwriaeth a pharch tuag at broffesiynau ei gilydd. Gall Cadeirydd y BGC, sut a ble mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal a sut mae'r BGC yn cael ei gynorthwyo i gyd newid dulliau o feddwl a chaniatáu her iachach i fusnes-fel-arfer.

Mae angen i'r arweinyddiaeth hon fod yn treiddio i bob lefel o'ch sefydliad. Dylech deimlo bod cynllun llesiant y BGC yn eich helpu i integreiddio'ch gwaith a herio afer presennol o fewn eich adrannau. Er mwyn perchenogi'r cynllun hwn yng ngwir ystyr y gair, a sicrhau bod y camau yr ydych yn eu cymryd yn cael eu deall, ac yr ymgwymerir â hwynt gan gyrff sy'n aelodau o'r BGC, efallai y byddech yn dymuno ystyried trefniadau gwaith agosach, tîm rhithwir aml-asiantaeth ag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli. Mae yna nifer o adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol, megis [Designing Multi-Agency Partnerships; Leading Culture Change](#).

Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Mae gosod eich gweledigaeth eisoes wedi manteisio ar nifer o ffynonellau tystiolaeth a'ch gwybodaeth broffesiynol chi eich hunain. Bwriad y cyngor hwn yw rhoi syniadau, gwybodaeth a chysylltiadau a allai eich helpu i ddangos sut yr ydych wedi ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd yng nghyd-destun Powys. Yn ogystal â'ch amcanion drafft, bydd fy nghyngor yn cyfeirio at y chwe phwnc a nodwyd gennych ar gyfer ffocysu arnynt, yn cynnwys cymunedau cydnerth; cyflogaeth a sgiliau; busnes ac entrepreneuriaid; trafndiaeth a chysylltiadau cymunedol; ymyrraeth gynnar ac atal; amgylchedd a thwristiaeth antur. Rwy'n dymuno pwysleisio bod eich amcanion drafft a'r pynciau yr ydych wedi eu nodi i gyd yn cysylltu â'i gilydd a dylech barhau i adeiladu ar hyn wrth ddatblygu a chyflwyno eich camau ar gyfer cwrdd â'r amcanion hyn.

- **Bydd pobl ym Mhowys yn mwynhau economi sefydlog a ffyniannus. . . Yn 2040, mae Powys yn ardal o gyfleoedd ac uchelgais lle mae ffyniant wedi ei adeiladu drwy addysg a sgiliau o ansawdd uchel, lle gall arloeswyr ac entrepreneuriaid gyflawni llwyddiant di-ben-draw.**

Gallaf weld o ddeunyddiau ymgysylltu eich Cyfnod 2 eich bod wedi cychwyn ystyried sut mae'r weledigaeth hon yn troi yn arfer ar gyfer Powys. Ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft, mae'n bwysig eich bod yn dangos sut mae eich amcanion a'ch camau'n maximeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant. Rydych eisoes wedi nodi yn eich gweledigaeth bod cael seilwaith digidol da, defnyddio i'r eithaf adnoddau naturiol eich sir, manteisio ar asedau'r ardal i annog busnes a thwristiaeth, buddsoddi mewn sgiliau a gweld iechyd pobl yn gwella fel canlyniad i gyd yn elfennau o economi sefydlog a ffyniannus ym Mhowys. Ymgyfraniad pwy allai fod ei angen arnoch i facsimeiddio eich cyfraniad fel BGC i bob un o'r nodau? Pa gyfleoedd sydd yna i gydweithio gyda darparwyr eraill y sector

preifat a chyhoeddus? Fel y nodir yn eich asesiad, sut fedrwch chi atal pobl ifanc rhag gadael Powys i chwilio am well cyfleoedd mewn mannau eraill?

Mae'n braf i glywed eich bod wedi defnyddio senarios y dyfodol yn y drafodaeth wreiddiol a gynhaliwyd gennych i greu gweledigaeth ar gyfer 2040. Buaswn yn eich cynghori i barhau i feddwl am effaith hirdymor eich gweithredu wrth i chi osod camau i gwrdd â'ch amcanion drafft. Mae dyfodol cyflogaeth a'r modd yr ydym yn gweld gwaith yn newid, gyda swyddi sy'n bodoli yn awr heb fod mewn bodolaeth pan adewais i'r ysgol. Heb amheuaeth bydd yr un peth yn wir am ein plant; mae'r [adroddiad Dyfodol Gwaith](#) yn rhagweld y bydd 65% o'r plant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gweithio mewn swyddi fel oedolion nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. [Ac yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y telir pobl ar hyn o bryd i'w cyflawni. Nododd eich asesiad llesiant bod y mwyafrif o boblogaeth Powys yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus - sut ydych chi wedi ystyried effaith awtomeiddio wrth i lawer o'r swyddi hyn gael eu disodli ganddo? Sut fedrwch chi weithredu nawr, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol, o amgylch gofal cymdeithasol, diwydiannau manwerthu a bwyd, sy'n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac a fydd yn dda i'r economi lleol? Mae [adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree](#)'n amlygu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, gan gryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut yr ydych wedi ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth osod eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol? Tra nad wyf eto wedi gweld y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd parthed cwrdd â'r amcan hwn, mae'r canlyniadau a'r mesurau yr ydych wedi eu rhannu'n ymddangos fel rhai cymharol draddodiadol yn eu hymagwedd ac felly buaswn yn eich cynghori i ystyried a ydynt yn adlewyrchu'r tueddiadau hirdymor y cynghorais chi i'w hadnabod a'u hystyried.

Wrth feddwl am y sgiliau hirdymor sy'n ofynnol, gyda phwy mae angen i chi gydweithio i greu'r addysg a'r sgiliau o ansawdd da a nodir yn eich gweledigaeth? Sut fedrwch chi facsimeiddio'ch cyfraniad i'r saith nod llesiant? Er enghraifft, mae ysgolion yn aml iawn wrth galon cymuned gydlynol a gall y pecyn iawn o sgiliau arwain at gymdeithas llawer mwy cyfartal. Sut fedrwch chi weithio gydag ysgolion a'r Grŵp NPTC o golegau i archwilio beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun Powys? O gadw mewn golwg bod micro-fusnesau a'r hunangyflogedig yn cyfrif am gyfran fawr o waith pobl ym Mhowys, sut ydych chi'n ennyn eu hymgyfraniad i ddeall y mater? Mae eich asesiad llesiant yn nodi nad yw pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau iawn i fynd i mewn i gyflogaeth, felly sut fedrech chi annog busnesau lleol i ddefnyddio'u cyfrifoldebau cymdeithasol a galluogi gwell dysgu ar gyfer pobl iau a phobl hŷn?

Bydd sgiliau angenrheidiol yn y dyfodol yn amlwg yn wahanol i'r rhai sydd arnom eu hangen yn awr - fel yr awgrymwyd gennych bydd cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn dod yn bwysicach. Fel y dyfynnwyd yn y [blog Fforwm Economaidd y Byd](#) diweddar hwn: "Credaf mewn dyfodol lle mae addysg wedi ei bwriadu nid i baratoi ar gyfer swydd arall ddiwerth, ond ar gyfer bywyd sy'n cael ei fyw yn dda." Pa sgiliau bywyd allai fod eu hangen ar

eich plant i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol ym Mhowys? Awgryma'r [adroddiad Dyfodol Gwaith](#) y bydd gwaith yn seiliedig ar brosiectau yn dod yn fwy cyffredin, gyda sgiliau'n ymwneud â chreadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys-problemau yn llawer pwysicach na gwybodaeth benodol. Ymddengys hyn fel sefyllfa a fydd yn fwy tebygol ym Mhowys nag mewn ardaloedd eraill, o gofio'r nifer mawr o bobl mewn busnesau bach a hunangyflogaeth a nodwyd gennych.

Adnabu eich asesiad yn gywir bod yn rhaid i'r camau a gymerir i gwrdd â'r amcan hwn fod yn integredig. Mae ystyried sut y caiff yr amcan hwn ei wireddu o un lle i'r llall yn bwysig yn hyn o beth er mwyn deall pa gamau y gall fod angen i chi eu cymryd ac i ba le. Er enghraifft, beth allai hyn ei olygu i ofal plant hyblyg mewn cymunedau arbennig? Sut mae cyfleoedd yn cael eu dal yn ôl gan seilwaith digidol? Mae diffyg signal ffonau symudol a chyflymderau rhyngrwyd dibynadwy yn cael eu nodi dro ar ôl tro yn eich asesiad llesiant, ac ar hyn o bryd, mae hyn yn cael ei waethygu gan gysylltiadau trafniadaeth gwael. Mae'r rhan fwyaf o bobl ym Mhowys yn defnyddio eu ceir personol, a fydd yn cael effaith ar ansawdd aer, eu hiechyd corfforol a'u hamser. Wrth i fwy o gyflogaeth ddod yn ddbynnol ar gysylltedd digidol, sut fedr y BGCau ddylanwadu ar ddarparwyr y sector preifat i wella seilwaith digidol y sir? Sut fedrwn chi gydweithio gyda busnesau i ddarparu achos ariannol dros newid?

Buaswn yn eich cyngori, fel arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus, i ystyried pa gamau y gallwch eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn. Mae eich asesiad llesiant yn nodi bod nifer o ficro-fusnesau yn gweithredu ym Mhowys ac rydych wedi nodi busnes ac entrepreneuriaid fel prif bwnc, felly sut fedr eich polisïau cyfundrefnol ymroi i helpu busnesau cynaliadwy lleol? Mae'r asesiad llesiant yn crybwyll y biwrocratiaeth sy'n effeithio ar dwf busnes yn yr ardal. Buaswn yn eich cyngori i ddangos dewrder a herio ble gellir cymryd camau i fynd i'r afael â rhwystrau yn hyn o beth. Sut fedrwn chi integreiddio eich cymorth i'r busnesau hyn, y maent wedi gofyn i chi amdano yn ôl eich asesiad llesiant a sut mae eich cynlluniau i wneud hyn yn cysylltu â pholisi a chyfleoedd i ddarparu gwasanaeth ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol? Ochr yn ochr â hyn dylech ystyried sut y gallech drwy eich dulliau caffael wneud eich gorau i gyfrannu at Bowys sy'n gyfrifol yn fyd-eang? Mae [Fforwm y Dyfodol](#) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn ac mae fy swyddfa yn gweithio gyda [Gwerth Cymru](#) ar gynlluniau peilot ar ymagweddau newydd tuag at gaffael yng nghyd-destun y Ddeddf.

Wrth gysylltu â'ch amcanion eraill ac anelu at 'gydraddoldeb i bawb', bydd angen i chi hefyd nodi ystyriaethau penodol yr ydych wedi eu cymryd i facsimeiddio eich cyfraniad i Gymru fwy cyfartal. Dylai hyn gael ei ystyried fel rhan o'ch dyletswyddau i'r Ddeddf Cydraddoldeb a'ch amcanion cydraddoldeb strategol. Er enghraifft, [mae llai nag 1% o brentisiaethau yng Nghymru'n cael eu cymryd gan bobl anabl](#) ac ar gyfartaledd mae'r [bwlch mewn tâl i bobl anabl ar draws Prydain Fawr yn dal yn 13.7%](#). Mae gan [Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru](#) nifer o adroddiadau ymchwil sy'n amlygu'r mater ehangach o gwmpas anabled, ethnigrwydd a bylchau tâl rhwng y rhywiau.

Sut fedr eich sefydliadu ymroi i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn eich ardal? Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar [ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn cynyddu amlygrwydd yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau. Wrth ymroi i alluogi entrepreneuriaeth a thwff, beth am gyflwyno cynlluniau newydd sy'n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy'n maxsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod?

Mae BGCau eraill sy'n drafftio amcanion tebyg yn cynnwys Ceredigion, Caerdydd, Sir Fynwy a Chaerffili.

- **Bydd pobl y Mhowys yn mwynhau amgylchedd cynaliadwy a chynhyrchiol . . . Yn 2040, mae Powys yn cael ei chynabod fel sir sy'n harneisio'i hadnoddau naturiol yn y modd gorau posibl tra'n cyflawni manteision ac economi llesiant i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.**

Fel ardal sy'n adnabyddus am ei mannau agored gwyrdd, mynyddoedd, afonydd a llynnoedd, mae gan Bowys amgylchedd naturiol rhyfeddol ac mae eich gweledigaeth yn cydnabod, yn gywir, bod hyn yn ased pwysig. Rydych wedi nodi'r angen i ddathlu'r parc cenedlaethol a chreu cyfleoedd i bobl sy'n mwynhau'r awyr agored. Cefais fy nghalonogi hefyd i weld eich bod yn ystyried potensial yr amgylchedd i ddwyn manteision economaidd i chi drwy dechnolegau, y defnydd o ddeunyddiau naturiol a thwristiaeth. Ond nid ydych ar hyn o bryd yn dangos ystyriaeth amlwg o effeithiau hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol a fydd yn dod â pheryglon arbennig i'ch ardal. Mae'r saith nod llesiant cenedlaethol yn rhoi fframwaith i chi i ystyried pa gamau y gallwch eu cymryd i liniaru, rheoli a datrys y peryglon hyn dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor.

Wrth osod eich gweledigaeth am 2040, a'r camau y byddwch yn eu cymryd i gyrraedd yno, rwy'n eich annog i ystyried effeithiau hirdymor y newid yn yr hinsawdd ar eich sir. Nododd eich asesiad llesiant dros 6,000 o gartrefi a llawer rhan o seilwaith oedd mewn perygl oddi wrth lifogydd a bygythiadau i gydnerthedd eich amgylchedd. Cafodd cartrefi yn y Drenewydd eu heffeithio gan law eithafol yn 2012 ac mae asesiadau llesiant yn dangos sut mae llifogydd yn effeithio ar lesiant pobl ymhell ar ôl y digwyddiad. Disgwylir i niwed [blynyddol i eiddo preswyl fod yn £22 miliwn](#), felly mae deall sut mae gwahanol ddigwyddiadau tywydd yn effeithio ar gymunedau yn hollbwysig wrth benderfynu sut i'w hatal. Fel y dywedais yn fy adborth i'ch asesiad llesiant, mae twrio'n ddyfnach i'r mater yn seiliedig ar le yn bwysig wrth geisio penderfynu ar y camau y gallech eu cymryd; er enghraifft, drwy ennyn ymgyfraniad ffermwyr yn y defnydd o'u tir mewn ardaloedd ucheldir ac ennyn ymgyfraniad busnesau yn y modd y gallent gael eu hamddiffyn yn y Drenewydd ac ardaloedd eraill yn y dyfodol. [Un enghraifft o fuddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd yw'r cynllun Ardal Perygl Llifogydd Cwm Tawe Isaf](#), prosiect £6.7miliwn sy'n rhoi amddiffynfa i 284 o fusnesau a safleoedd diwydiannol ac sy'n cyflogi dros 10,000 o bobl.

Mae llawer o bobl ym Mhowys yn dibynnu ar eu hamgylchedd am incwm, anghenion sylfaenol a gweithgareddau oriau hamdden, a chaiff adnoddau megis coed eu defnyddio gan bobl ar draws Cymru. Yn y dyfodol, mae tywydd eithafol yn debygol o achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio ac sy'n effeithio wedi hynny ar amaeth. Gan fod dros 70% o'ch tir yn cael ei ffermio, sut ydych chi'n ystyried effaith

economaidd posibl newid yn yr hinsawdd ar ffermio? Os yr ydych yn bwriadu defnyddio eich adnoddau naturiol i elwa'n economaidd, sut ydych chi wedi ystyried effaith hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol ar yr adnoddau hyn? Sut fedwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu eich gweithrediadau ataliol i amddiffyn amaeth, cyflenwadau dŵr a thrafnidiaeth ar adegau o dywydd eithafol? Mae adroddiad diweddar [Zero Carbon Britain, 'Making it Happen'](#) yn nodi ein bod i gyd yn gyfrifol am genedlaethau'r dyfodol ac y dylem weithredu yn awr ar y newid yn yr hinsawdd.

Am bob cam yr ydych yn eu cymryd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae angen i chi ystyried eich gweithrediadau chi eich hunain fel Arweinyddion, Prif Weithredwyr ac uwch swyddogion eich sefydliadau. Rwy'n falch i weld gweithredu drafft yn eich deunydd ymgysylltu ar ddarparu pwyntiau ar gyfer gwefru cerbydau trydan mewn gwahanol rannau o'r sir. Mewn sir mor fawr â'ch un chi, gall camau fel y rhain gyfrannu'n wirioneddol at newid ymddygiad, sy'n cychwyn gyda'ch arweinyddiaeth chi a'ch staff. Beth fedwch chi ei wneud i annog pobl i ddefnyddio cronfa ceir trydan ac annog llai o deithio drwy ddefnyddio technoleg? Fel y cyfryw, mae angen i'ch rolau chi eich hunain yn y gwaith o amddiffyn yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol fod yn glir am y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn. Mae hyn yn cynnwys sut yr ydych yn cynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol), adeiladau, seilwaith a mannau agored cyhoeddus a chymunedol eraill. Mae ennyn ymgyfraniad gwahanol bobl a phersbectifau mewn cynllunio yn hollbwysig. Yn fy adborth nodais nad oedd eich asesiad llesiant yn cydnabod parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel ased cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol. Fel aelod o'ch BGC, gall y parc cenedlaethol chwarae rhan mewn twristiaeth, yr economi lleol ac amgylchedd Powys a hoffwn weld mwy o FGCau yn cydweithio gyda pharciau cenedlaethol Cymru i ddarganfod datrysiadau arloesol.

Gyda'ch gilydd, mae gennych hefyd lawer o ystadau'r sector cyhoeddus, cyfrifoldeb am seilwaith a llais yn y modd y caiff adeiladau eu dylunio a'u hailwampio. Mae'r adroddiad [Closing the Circle](#) yn adrodd ar yr economi cylchol ac mae 'Amgylchedd Cymru' yn adroddiad defnyddiol gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, sy'n rhoi enghreifftiau ymarferol o ble fedr y sector cyhoeddus ymroi i leihau gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Gallwch hefyd gael eich ysbrydoli gan rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yng [Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd](#), megis Ystafell Ddosbarth Weithgar. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladwaith cynaliadwy, yn fanteisiol i chi fel BGC. Mae [adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#) yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod o fanteision pendant sydd wedi eu profi, a manteision economaidd cost-effeithiol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, yn magsimeiddio effeithlonrwydd ynni ac wedi dangos y gall brysuero iachâd cleifion mewn modd arwyddocaol.

Er mai dim ond ychydig o allyriadau yng Nghymru sy'n deillio o'r sector cyhoeddus, rydych chi mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n fwy eang ar allyriadau mewn meysydd megis trafndiaeth, ynni, defnyddio tir a chaffael.

[Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) lefelau allyriadau carbon wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer cyflawni sector cyhoeddus ddigarbon erbyn 2030 ac ysgrifennais atoch yn eich annog i ystyried a chyfrannu cyn y dyddiad cau, sef 13eg Medi. Byddaf yn cynnal digwyddiad yn Nhachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i: archwilio sut y gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ennyn ymgyfraniad pobl wrth gydweithio ac integreiddio'u gwaith, i roi mwy o sylw i oblygiadau carbon eu gweithgareddau yn yr hirdymor, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag dod hyd yn oed yn waeth.

Mae eich asesiad llesiant yn nodi nifer o gynlluniau ynni adnewyddadwy yn eich sir. Buaswn yn eich cyngori i ystyried sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i annog hyn, gan fod gennym ymrwymadau clir i leihau allyriadau carbon, a bydd cyflawni'r cynlluniau hyn yn allweddol yn hyn o beth. Mae'r DU wedi ymrwmo i gael dim allyriadau erbyn 2050 ac mae pob Llywodraeth yng Nghymru wedi ymrwmo i greu mwy o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru, ac yn arbennig Powys, yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad '[Dyfodol Ynni Clyfar i Gymru](#)' gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu adroddiad ar '[A Smart Energy Future for Rural Areas](#)' sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Yn dilyn ymgyngoriad gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar ar Bolisi Adnoddau Naturiol, crynhowyd [ymatebion i'r ymgyngoriad](#), ac amlygwyd 'Cyflymu twf gwyrdd trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ac ynni adnewyddadwy a chefnogi arloesedd' fel blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg. Hefyd, yn ei Rhaglen Lywodraethu [Symud Cymru Ymlaen](#) mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i "gefnogi rhagor o ddatblygiadau prosiectau ynni adnewyddadwy, yn cynnwys lagwnau llanw a chynlluniau ynni cymunedol." Efallai y byddwch o'r farn bod y [seminar hwn](#) ar Wasanaeth Ymchwil Llywodraeth a Chymdeithas Ddysgedig Cymru yn darparu mewnwelediadau oddi wrth arbenigwyr ynni mwyaf blaengar Cymru a'u meddyliau hwy ar ddyfodol ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Bydd prif seminar [Fforwm Polisi Cymru](#)'n digwydd ar 7fed Rhagfyr eleni, gyda'r ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, tyfu'n sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy.

Rydych hefyd wedi nodi pa mor bwysig yw eich amgylchedd i dwristiaeth a gweithgareddau oriau hamdden. Wrth i chi facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant fel BGC, buaswn yn eich cyngori i ystyried sut mae'r amgylchedd yn fanteisiol i iechyd, cydlyniant a diwylliant cymunedau. Fel y nodwyd yn gywir gennych, mae yna botensial enfawr i fusnesau ym Mhowys gymryd mantais o dwristiaeth antur. Fel y gwyrddoch, mae ardaloedd yng Ngogledd Cymru wedi elwa o'r fantais hon dros y blynyddoedd diweddar. Sut fedrwch chi annog y busnesau hyn i fod yn gynaliadwy ac o fudd i drigolion lleol, a busnesau eraill megis cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol? Mae cymunedau gwledig eraill ar draws y byd wedi gweld cynnydd yn ddiweddar ymhlith pobl ifanc sy'n aros yn ei man geni, gyda thechnolegau gwell, a hefyd drwy ddatlu'r ffordd o fyw a chyflwyno twristiaeth gynaliadwy.

Awgryma'r [erthygl hon gan Fforwm Economaidd y Byd](#) y gallai rhai o'r atebion fodoli mewn mentrau o'r gwaelod i fyny, lle mae pobl ifanc yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd lleol naturiol, gan ddweud wrth eraill am eu treftadaeth a'u hamgylchedd, gan gychwyn busnesau graddfa fach sy'n elwa ar ymweliadau twristiaid.

Mae eich asesiad a'ch pynciau allweddol yn nodi trafndiaeth fel problem arbennig. Sut fedrwyd chi ennyn ymgyfraniad cymunedau i gysylltu parciau, mynyddoedd, llynnoedd, safleoedd o ddiddordeb arbennig ac arwyddocâd hanesyddol â chyfleoedd teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus ac, ar yr un pryd, fod o fantais i fusnes lleol? Mae hyn yn golygu ffocws ar gynllunio seiliedig ar le a ffocws ehangach ar lesiant amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardal - yn hytrach nag enillion economaidd yn unig. Yn ddiweddar lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot yn cynnig [siwrneiau am ddim ar draws rhwydwaith TrawsCymru](#) hyd Mai 2018, i annog pobl i 'dreulio' u penwythnosau yn mwynhau harddwch amrywiol Cymru'.

Mae BGCau eraill sy'n ystyried amcanion drafft a chamau o gwmpas eu hamgylchedd naturiol ac ynni adnewyddadwy yn cynnwys Blaenau Gwent; Ceredigion; Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg.

- **Bydd pobl Powys yn iach, yn fywiog yn gymdeithasol ac yn gyfrifol. . . Yn 2040, mae Powys yn sir lle mae preswylwyr yn mwynhau iechyd da ac ansawdd bywyd da, lle mae pawb yn gyfartal a chyfleoedd i bobl gyflawni'r hyn y maent yn dymuno ei gyflawni.**

Fel BGC, mae angen i chi ddangos sut yr ydych wedi ystyried yr hyn yr ydych yn ceisio'i atal ar gyfer eich holl amcanion. Mae'r weledigaeth hon yn ymwneud ag atal a galluogi pobl i wella'u llesiant. Fel y cyfryw, mae'n cysylltu â'ch holl amcanion, gan fod eich prif bynciau o'r asesiad yn cynnwys ymyrraeth gynnar ac atal a chysylltiadau cymunedol. Dylai eich camau, felly, gysylltu nid yn unig â sut y gellir gwella iechyd ond hefyd gysylltu ag amgylcheddau adeiledig a naturiol pobl, eu hincwm a'u bywyd cymunedol - pob un ohonynt yn benderfynyddion iechyd ar raddfa ehangach. Rwy'n eich cynghori i fod yn weithgar yn eich defnydd o'r diffiniadau o'r saith nod llesiant, gan eu bod wedi eu bwriadu i ddangos i chi sut y gallwn gael effeithiau lluosog manteisiol ar lesiant drwy'r camau a gymerwn.

Ar hyn o bryd, nid yw ein gwasanaethau yn aml iawn wedi eu llunio mewn dull a fyddai'n cyflawni'r amcan hwn. Rydym yn delio â phobl mewn categorïau destlus 'defnyddwyr-gwasanaethau', sy'n aml yn rhwystro pobl rhag cyrchu cyfleoedd cyfartal. Rydym yn delio â symptomau, megis camddefnyddio deunyddiau, camdriniaeth ddomestig, iechyd meddwl, llesgedd, gordewdra ac yn y blaen, yn hytrach nag ymroi i ddeall yr achosion sydd wrth wraidd y fath gyflyrau. Mae'r ffordd hyn o weithio'n arwain at ddiffyg cysylltedd, yn ein hatal rhag integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Bwriad y pum dull o weithio yw herio'r modd yr ydym ar hyn o bryd yn gwneud pethau a rhoi lens wahanol fel gwasanaeth cyhoeddus cyflawn ar gyfer delio â phroblemau. Mae'n galonogol i weld eich bod yn ennyn ymgyfraniad pobl i herio'r system oherwydd dim ond

drwy ddeall profiadau bywyd pobl y medrwn ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r enghraifft hon ['Pam nad yw pobl yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor'](#) yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau a wynebir gan bobl wrth iddynt geisio goresgyn anghydraddoldeb ac; mae'r astudiaethau achos a [gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan Locality](#) yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu'r ymagwedd holistig ac ataliol hon tuag at fywydau pobl.

O gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn, rhaid i'ch sefydliad weithio tuag at integreiddio gwasanaethau yn well, cyd-leoli timau, crynhoi adnoddau a gweithio mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'r gymuned. Yn y camau yr ydych yn eu cymryd, mae'n bwysig i adolygu mentrau lleol sy'n ffocysu ar iechyd meddwl, camddefnyddio deunyddiau, cyfiawnder troseddol, tai, gwasanaethau, ac eraill, i sicrhau eu bod yn ataliol, yn gyd-gysylltiedig, ac yn ymroi i wella sefyllfaoedd i deuluoedd a rhieni'r dyfodol fel y gellir atal y cylchoedd o anghydraddoldeb rhag parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf.

Mae eich gweledigaeth yn rhoi cyfle i ystyried pa fath o le fydd Powys pan fydd eich wyrion yn tyfu i fyny ynddi, a sut y gallwch weithredu yn awr i ddylanwadu ar ganlyniadau plant sy'n cael eu geni heddiw. Fel y gwyddoch, mae dyddiau cynnar bywyd plant a'u hamgylchedd teuluol yn hollbwysig i'w llesiant drwy gydol eu bywyd. Mae gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar [1000 diwrnod cyntaf bywyd](#), ac ar effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn dangos yn glir yr effaith y gallwn ei gael ar gychwyn bywyd plentyn. Amcangyfrifir bod [gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr](#). Nid eich cyfrifoldeb chi yn unig yw galluogi pobl i gael cychwyn iach mewn bywyd, ond cyfrifoldeb y teuluoedd lle mae plant yn tyfu i fyny a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, yn ogystal â'r teuluoedd y maent hwy eu hunain wedyn yn rhoi cychwyn iddynt. Felly, wrth ystyried pa gamau y gallech eu cymryd, gallai gwaith y Sefydliad Economeg Newydd ar fuddsoddi mewn plant fod yn ddefnyddiol, gan ei fod yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â llesiant materol a hefyd amgylchiadau allanol - megis tai, tlodi ac addysg - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol. Gallai gwaith y [Sefydliad Economeg Newydd](#) ar fuddsoddi mewn plant fod yn ddefnyddiol, gan ei fod yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â llesiant materol a hefyd amgylchiadau allanol - megis tai, tlodi ac addysg - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol.

Rydych wedi nodi'r amcan hwn o gwmpas dewisiadau ffordd o fyw ac annog pobl i fanteisio ar eu hamgylchedd. Dylid gweld y diwydiant lles sy'n cynyddu, treulio amser allan yn yr awyr agored a chwaraeon antur fel cyfleoedd i Bowys. Oes yna gamau y gallwch eu cymryd i helpu pobl i newid eu hymddygiad drwy gyfrannu i'r saith nod? Er enghraifft, darganfu'r adroddiad Nudjed ['Behaviour Change is a Team Sport'](#) bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Er enghraifft mae newid ymddygiad yn aml yn 'glynu' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd. Sut mae hyn yn berthnasol i'ch amcanion eraill a'ch gweledigaeth gyffredinol? Pa weithgareddau diwylliannol fedr annog plant ac oedolion i fyw bywydau iachach? Sut fedrai pobl gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol i'w helpu i reoli eu hiechyd? Mae hwn yn

gyfle i wella mynediad i weithgareddau diwylliannol a hybu treftadaeth, defnyddio'r iaith Gymraeg ac annog pobl i gasglu at ei gilydd o gwmpas achos lleol, megis eu hamgylchedd.

Fel y cyfryw, gallaf weld eich bod wedi meddwl am 'bresgreibio cymdeithasol'. Gallai cydweithio ag eraill i beri i hyn ddigwydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n llesiant. Mae dulliau o bresgreibio cymdeithasol yn cynnwys ystod eang o bethau, ond mae'n cynyddu ac rwyf wedi fy nghalonogi i weld ei fod yn cael ei gydnabod fel ymagwedd ataliol. Mae'r [astudiaeth hon ar bresgreibio cymdeithasol ym Mryste](#), yn rhoi gwybodaeth ar wahanol fodelau ac mae'n rhoi peth mewnwelediad i'r gwelliannau mewn iechyd meddwl ac iechyd yn gyffredinol. Dangosodd rhaglen ddogfen ddiweddar y BBC '[The doctor who gave up drugs](#)', sawl enghraifft o'r modd y gall ymagwedd amgen tuag at bresgreibio tabledi gael effaith fwy holistig, cadarnhaol sy'n para am amser hir, ar fywyd rhywun - gyda phobl yn dod yn fwy ffit yn gorfforol ac yn fwy iach yn feddyliol heb ddibynnu ar bresgripsiynau. Fel yr ydych wedi cydnabod rwy'n siŵr bod yna gyfleoedd i chi weithio gyda sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, i ddatblygu ymagwedd drwy'r sir gyfan. Mae prosiect [Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru](#)'n enghraifft o gael pobl allan i'r awyr agored, i amdiffyn eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. Sut fedrwch chi ennyn ymgyfraniad y 'rhai anarferol' wrth archwilio'r camau sydd angen eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn? Sut fedr y trydydd sector deimlo bod ganddynt y grym i helpu? Mewn rhai ardaloedd, mae sefydliadau cymunedol wedi cael eu hariannu gan Gronfa Gofal Ganolraddol i weithredu fel cydlynwyr cymunedol ar gyfer pobl hŷn - a'u cysylltu â gweithgareddau lleol a gwasanaethau yn eu hardal a'u helpu i aros yn weithgar ac iach. Os fydd hyn yn llwyddo i gadw pobl hŷn yn annibynnol heb orfod cyrchu gwasanaethau statudol, sut fedrwn ni gydweithio'n well ar ddarparu adnoddau i fentrau fel y rhain. Cynhyrchodd y [CGGC wybodaeth ehangach](#) ar sut mae'r trydydd sector yn chwarae rhan mewn cyfrannu i'r Ddeddf, yn cynnwys adnoddau ar y saith nod llesiant.

Rydych wedi nodi yn eich asesiad, bod mwy o bobl ifanc, fel mewn rhannau eraill o Gymru, yn cyrchu gwasanaethau iechyd meddwl. Mae oddeutu 50% o bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn dangos symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 mlwydd oed, a llawer pan fyddant yn llawer ieuengach. Sut fedrwch chi gydweithio i adnabod symptomau salwch yn gynt? Beth fedrwch chi ei wneud i atal problemau nes ymlaen mewn bywyd? Sut fedrai gwasanaethau newid neu sut ellid addasu gwasanaethau cyffredinol fel bod atal yn rhan greiddiol ohonynt? Mae [Caerdydd wedi treialu gwersi iechyd meddwl i blant](#) ac mae adroddiad newydd oddi wrth Respublica a Barnado: [Making young minds matter](#) yn amlinellu ymyriadau cynnar (megis cwnsela yn yr ysgol yng Nghymru) a fedr gael effaith cadarnhaol ar iechyd meddwl.

Mae nifer o FGCau yn drafftio amcanion i wella iechyd, gwella atal, galluogi pobl i fod yn fwy cyfrifol am eu hiechyd, yn cyflwyno newid ymddygiad a phresgreibio cymdeithasol, yn cynnwys Caerffili, Cwm Taf, Sir Benfro, Conwy/Sir Ddinbych a Sir Fynwy.

- **Bydd pobl ym Mhowys yn cysylltu â chymunedau cydnerth a diwylliant bywiog. . . Mae Powys yn 2014 yn sir sydd wedi ei seilio ar gymunedau cydnerth sy'n creu datrysiadau lleol o'r newydd. Mae Powys hefyd wedi cynyddu ei henw da fel sir sy'n cynnig ystod eang o weithgareddau diwylliannol a digwyddiadau sydd at ddant pawb.**

Mae'n glir bod gweithredu cymunedol yn digwydd eisoes yn eich sir. Mae'r nifer o fusnesau a sefydliadau cymunedol a ddangosir yn eich asesiad, a'r ffaith fod gennych 110 o Gynghorau Cymuned a Thref yn eich gosod mewn sefyllfa ffodus ar gyfer yr amcan hwn. Mae'r amcan hwn yn cysylltu â phob un o'ch amcanion eraill wrth godi lefelau menter (megis mewn busnesau, ynni adnewyddadwy a chyflogaeth), nerth (mewn iechyd a llesiant), cydnerthedd (yr amgylchedd ac ecosystemau) a diwylliant (cysylltu pobl drwy drafndiaeth, cysylltiadau cymunedol, diddordebau ac iaith). Mae cyfle gwirioneddol yn y fan hon i chi feddwl am y modd yr ydych yn maxsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau cenedlaethol. Mae treftadaeth, iaith, traddodiadau ac amgylchedd naturiol Powys i gyd yn bethau y mae pobl yn teimlo'n gryf yn eu cylch. [Mae Cyngor Celfyddydau Cymru](#) yn amlinellu rhai o'r manteision i'r boblogaeth ym maes iechyd, cydlyniant a sgiliau, sy'n deillio o weithgareddau creadigol. Mae'r [Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol i mewn i ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le. Gallai cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, eich helpu i weld sut y gallai eich camau i gwrdd â'r amcan hwn facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau.

Ac fel y nodwyd gennych, mae nifer siaradwyr Cymraeg wedi disgyn yn y blynyddoedd diwethaf ym Mhowys. Mae bod yn ddwyieithog nid yn unig yn gwella'r teimlad o berthyn a hunaniaeth ond mae hefyd yn sgil bwysig ar gyfer cyflogaeth a thwf busnes yng Nghymru. Sut ydych chi'n ymroi i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod twristiaeth yn hybu'r iaith fel ased? Mae tîm Comisiwn yr Iaith Gymraeg wrthi'n ystyried y ffordd orau o helpu BGCau i ystyried y rôl y gallant ei chwarae yn nhwf yr iaith Gymraeg, fel y'i nodir yn [Cymraeg 2050](#). Os gwelwch yn dda gadewch i fy nhîm wybod os hoffech gysylltu ag unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn.

Gwnaethpwyd argraff arnaf gan y modd yr ydych wedi cychwyn ennyn ymgyfraniad pobl mewn gwahanol ffyrdd, megis drwy gynhyrchu animeiddio a sicrhau bod deunyddiau syml ar gael i'r cyhoedd ar eich gwaith. Rwy'n dymuno gweld BGCau yn dangos eu bod wedi ystyried y tueddiadau hirdymor a'r cyfleoedd a gynigir i bawb yn eu camau drafft, felly a ydych wedi ystyried sut y gallai pobl ddymuno ymgyfrannu yn y dyfodol? Pa fath o newidiadau y gall fod angen i chi eu gwneud i'ch systemau cyfundrefnol a'ch polisïau i alluogi pobl i ymgyfrannu mwy mewn cymunedau a llunio gwasanaethau cyhoeddus? Ar hyn o bryd, dengys ymchwil bod plant rhwng 5 a 16 mlwydd oed yn gwario, ar gyfartaledd, chwe awr a hanner o flaen sgrîn yn ddyddiol; [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol](#) fel eu prif ffynhonnell newyddion; [43% o bobl a anwyd rhwng 1980 a dechrau'r](#)

[2000au yn cael eu gyrru i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol](#); ac yn ôl [arolwg ONS 2017](#), 87% o oedolion yng Nghymru, yn ddiweddar, wedi defnyddio'r rhyngwrwyd (hynny yw yn ystod y tri mis diwethaf). Er bod rhai pobl ar hyn o bryd heb fod ar-lein, a bod angen amlwg am ymagwedd wedi ei theilwra, mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y dull sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, yn hytrach na bod yn dasg ychwanegol iddynt. Mae "[Sir Fynwy Agored](#)" yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Byddai Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, yn medru eich helpu i rannu eu gwybodaeth gyda chi ar sefydlu'r wefan hon.

Gall ennyn ymgyfraniad pobl yn y gwaith o redeg eu cymuned gael effaith cadarnhaol ar helpu i wneud y gymuned yn fwy cydnorth. Mae gan [NESTA ganllaw](#) ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw i leihau eu hól-troed carbon. Mae prosiectau megis '[GlawLif Dŵr Cymru](#)' yn awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd ac mae enghraifft eithafol yn cynnwys [Ynys Eigg yn yr Alban](#), lle mae'r gymuned yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu hamgylchedd drwy gyflwyno cynlluniau ynni cymunedol adnewyddadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth. Mewn sir sydd mor fawr, bydd yna wahaniaethau ar draws Powys sydd angen eu dehongli a'u harchwilio, a fydd yn golygu grymuso pobl a staff i dreulio mwy o amser ar lawr gwlad. Buaswn yn eich annog i ddefnyddio Cynghorau Tref a Chymuned fel ased, gan fod gweithio gyda chynghorau cymuned, y trydydd sector a rhwydweithiau eraill yn eich helpu i ddeall y ffordd orau o ennyn ymgysylltiad pobl ac annog newid mewn ymddygiad wedi ei ffocysu ar le.

Gallai agor tir ac adeiladau i'r gymuned fod yn ddull o annog manteision niferus i gael eu gwireddu. Ar draws y DU, mae caledi wedi golygu bod adeiladau, tir a gwasanaethau wedi cael eu trosglwyddo i fod yn eiddo i'r gymuned ac, mewn llawer achos, mae hyn wedi cynyddu llesiant y bobl sy'n ymgyfrannu. Sut fedrwch chi wneud gwell defnydd o'r ystâd gyhoeddus gyfunol sydd gennych ym Mhowys? Os ydyw arwahanrwydd a thrafnidiaeth yn fater o bwys, sut y gellir trefnu darpariaeth mewn dull gwahanol? Mae gan [Weithgor Asedau Cenedlaethol Cymru](#) rai enghreifftiau y byddwch efallai yn dymuno eu harchwilio, ond mae yna lawer o sefydliadau sy'n annog gwneud gwell defnydd o dir ac asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd, megis [Shared Assets](#), [Nurture Development](#) a [Locality](#), gyda'r bwriad o annog cymunedau i ffynnu.

Dylech hefyd ystyried beth mae'r amcan a'r camau hyn yn ceisio'u hatal. A ydyw hyn mewn ymateb i'r nifer cynyddol o'r boblogaeth sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn y sir, yn arbennig wrth fynd yn hŷn? Mae unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn effeithio ar bobl o bob oed, yn arbennig mewn cymunedau gwledig. Ond fel y dengys eich asesiad, mae pobl hŷn yn gwerthfawrogi'n fawr y teimlad o fod yn gysylltiedig â'u cymunedau. Gan gysylltu hyn â'r amcan uchod mae [Ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#) wedi dangos bod unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn gysylltiedig ag iechyd meddwl neu gorfforol gwael; sut fedrwch chi facsimeiddio manteision



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

ymgyfraniad i wella iechyd pobl hŷn yn eich ardal? Mae yna rai enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnerthedd nes ymlaen yn eu bywydau, megis [Siediau Dynion Cymru](#), sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo. Mae [Gofal Solfach](#) yn dangos mentrau arloesol sy'n ffocysu ar anghenion y gymuned yn gyntaf ac yn integreiddio gwasanaethau i wella llesiant. Yn ddiweddar ysgrifennodd Comisiynydd Pobl Hŷn atoch fel BGC, gan amlinellu rhai o'r ymagweddau y gallwch fod yn dymuno eu mabwysiadu wrth gydnabod y rhan hon o'ch poblogaeth.

Mae BGCau eraill hefyd yn ystyried gosod amcanion yn ymwneud ag ymgysylltu, diwylliant, datblygu/cynnal rhwydweithiau cymdeithasol cryf, meithrin y teimlad o berthyn a llunio gwasanaethau. Yn arbennig, efallai y buasech yn dymuno rhannu syniadau gyda BGCau Bro Morgannwg, Ceredigion a Chasnewydd.

Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a maccsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthyd chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Powys ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,

Sophie Howe



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT

contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales